Gweithio'n Hyblyg

Taflen Ffeithiau

Gweithio'n Hyblyg yn gwneud synnwyr i fusnesau

Cyflwyniad

Gall cynnig mentrau gweithio'n hyblyg i'ch staff arwain at fanteision busnes gwirioneddol. Mae'r daflen ffeithiau hon yn egluro pam ei fod yn bwysig, yn cyflwyno'r gwahanol fathau o weithio'n hyblyg ac yn dweud wrthych faint gallai peidio â'i ystyried ei gostio i chi.

Pam ei fod yn bwysig?

Mae ffactorau amrywiol yn effeithio ar weithleoedd: poblogaeth sy'n heneiddio, y defnydd o dechnoleg, pwysau amser cynyddol, cyfyngiadau cyllidebol a hyd yn oed agweddau gwahanol gweithwyr cenhedlaeth Y at y gweithle.

Drwy ganiatáu gweithio'n hyblyg, bydd cyflogwyr yn y sefyllfa orau i allu addasu i'r newidiadau hyn. Mae busnesau sydd wedi gweithredu cynlluniau gweithio'n hyblyg yn nodi:

- Gostyngiad mewn trosiant staff a chostau recriwtio cysylltiedig
- Gostyngiad mewn absenoldeb salwch a chostau cysylltiedig
- Mwy o effeithlonrwydd yn sgil llai o amser segur
- Gweithwyr mwy bodlon, brwdfrydig a chynhyrchiol
- Y gallu i ddenu a chadw'r doniau gorau
- Cadw staff a'u sgiliau a'u gwybodaeth dros gyfnod hirach o amser
- Gallu darparu budd poblogaidd iawn ymysg gweithwyr am fawr ddim neu ddim cost i'r busnes

Mae gweithwyr sy'n elwa ar weithio'n hyblyg yn nodi:

- Llai o absenoldeb oherwydd straen a salwch
- Mwy o deyrngarwch i'r cyflogwr
- Eu bod yn fwy bodlon, brwdfrydig a chynhyrchiol
- Gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o amser, e.e. gallu osgoi cymudo ar adegau prysur
- Gallu ymdopi â newid cyfrifoldebau personol a pharhau i weithio

Mathau o weithio'n hyblyg

Mae'r term gweithio'n hyblyg yn cwmpasu amrywiaeth o wahanol ffyrdd o weithio, ac fel arfer gellir ei gategoreiddio yn ôl ble rydym yn gweithio, faint o amser rydym yn gweithio, a phryd ydym yn gweithio. Mae'r tabl yn dangos rhai o'r posibiliadau ym mhob categori, er bod llawer mwy yn bodoli i ddiwallu anghenion busnes penodol.

Ble rydym yn gweithio	Faint rydym yn gweithio	Pryd ydym yn gweithio
Safle'r cyflogwr	Llawn Amser	Cynllun oriau hyblyg
Cartref	Rhan-amser	Oriau cywasgedig
O bell - lleoliad heblaw am safle'r cyflogwr	Rhannu Swydd	Oriau Blynyddol
	Rhan o'r flwyddyn	Shifftiau/cyfnewid shifftiau
	Yn ystod y tymor neu wyliau ysgol	Gweithwyr yn pennu eu horiau gwaith eu hunain
	Goramser/Amser mewn llaw	Ymddeol Hyblyg

Faint fydd peidio â'i wneud yn ei gostio i mi?

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos pa mor bwysig y gall gweithio'n hyblyg fod i helpu busnesau i ostwng eu costau drwy leihau trosiant staff ac absenoldeb:

- Amcangyfrifir bod recriwtio rheolwr iau, gan ystyried costau recriwtio, hyfforddiant, amser segur wrth i weithiwr newydd ddysgu am y swydd, a chyfraniad rheolwyr, yn costio £15,000.
- Amcangyfrifir bod absenoldeb sy'n gysylltiedig â straen yn costio £7.1 miliwn yr wythnos i fusnesau Prydain.

Camau nesaf

- Ystyriwch sut y gallech weithio'n fwy hyblyg yn eich busnes
- Ymgynghorwch â'ch gweithwyr wrth i chi ddechrau ar y daith hon
- Ffoniwch Cenedl Hyblyg ar **01443 824411** i weld a yw'ch busnes yn gymwys am y cymorth cynhwysfawr a ariennir sydd ar gael gan ein Rhaglen Esblygu i Fusnesau.

Mae'r prosiect Cenedl Hyblyg yn darparu gwasanaethau cymorth a datblygu yn y gweithle ar gyfer menywod a busnesau yn ardaloedd Cydgyfeirio Cymru. Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.agilenation.co.uk**

Chwarae Teg®

Agile Nation

ESF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Social Fund